BWLETIN POLISI CYTÛN

MAWRTH 2018

EGLWYSI YN POENI BOD CYMRU AR LWGU

Mae llawer o eglwysi ac elusennau Cristnogol yng Nghymru yn dweud eu bod yn gweld niferoedd cynyddol o blant ac oedolion yn newynu, wrth i effeithiau llymder economaidd, diwygio'r system lles a diweddu rhaglenni Cymunedau'n Gyntaf ddechrau brathu.

Mae Esgobaeth Llanelwy yr Eglwys yng Nghymru wedi bod yn mynd i'r afael â newyn gwyliau ysgol mewn partneriaeth â darpariaeth gofal leol. Mae gwirfoddolwyr yn defnyddio adeiladau'r eglwysi i wneud pecynnau cinio (rhôl mawr wedi'i lenwi, ffrwyth a snac iachus) ac yn eu dosbarthu i'r darparwyr gofal. Mae'r staff chwarae yn sicrhau bod y rhai sydd debycaf o newynu yn ystod y gwyliau yn derbyn pecyn cinio. Dywedodd un o'r gofalwyr wrthym am fachgen chwe blwydd oed. "Dros y gwyliau roedd ei ymddygiad yn dirywio i'r fath raddau fod rhaid i'r staff weithiau ei atal o'r lleoliad oni bai fod oedolyn gydag e. Yn ystod y cyfnodau hyn fe fyddai'r bachgen yn cael ei weld yn crwydro'r strydoedd ar ei ben ei hun. Gallai'r staff weld pan fod ganddo becyn cinio fold ei ymddygiad yn llai ymosodol, roedd yn hapusach ac yn cymryd rhan a chyfrannu i'r gweithgareddau. Roedd ei berthynas â'i gyfoedion yn llai di-drefn ac o ganlyniad roedd yn fwy cymdeithasol ac yn gallu gwneud ffrindiau. Roedd cael y bwyd yn wellianty sylweddol i'w wyliau haf."

Mae'r gwirfoddolwyr yn benderfynol o ddarparu pecynnau cinio dros wyliau'r Pasg, er nad yw darparwyr y cynlluniau chwarae – a gyllidwyd yn bennaf gan Gymunedau'n Gyntaf – yn sicr a all eu gwaith barhau ar ôl diwedd Mawrth, gan nad yw'r awdurdod lleol eto wedi dyfarnu'r cyllid etifeddol dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn dilyn Cymunedau'n Gyntaf.

Mae llawer o gynulleidfaoedd sy'n perthyn i aelod enwadau Cytûn yn cartrefu neu'n cyfrannu at Fanciau Bwyd lleol. Mae ein darlun yn dangos y Barch. Nesta Davies a thrysorydd Ymddiriedolaeth Trussell, darparwr mwyaf banciau bwyd yng Nghymru, yn y Banc Bwyd sefydlwyd gan Cytûn lleol yn Ninbych a Rhuthun. Daw 80% o'r gwirfoddolwyr o'r eglwysi yn ogystal â'r rhoddion sy'n cynnal y cynllun. Bu rhai o'r gwirfoddolwyr yn paratoi dros gant o hamperi Nadolig a ddosbarthwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Samariaid yn lleol.

Meddai Tony Graham, Cyfarwyddwr Cymru Ymddiriedolaeth Trussell, "Mae ein cymdeithas yn credu y dylid sicrhau nad yw pobl yn cael eu gadael yn ddiymgeledd. Ond yng Nghymru, fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig, mae mwy a mwy o bobl angen banciau bwyd ac yn cael eu bod wedi eu carcharu mewn tlodi, wedi'u caethiwo gan incwm isel neu ansefydlog. Fe allai ein system budd-daliadau atal hyn, ond



mae tyllau yn y rhwyd yn golygu ei bod yn gwthio pobl i dlodi. Mae banciau bwyd yn gwneud pob dim a allant i helpu, yn darparu bwyd, cefnogaeth ac unrhyw beth ychwanegol y gallant, ond allwn ni ddim ei gadael hi i fudiadau gwirfoddol datrys newyn a thlodi. Fe fyddai mynd i'r afael â phroblemau gyda budd-daliadau, y prif reswm pam mai pobl angen banciau bwyd, megis atal oedi ar gyfer taliadau, a chynnig mwy o gefnogaeth ariannol i bobl mewn argyfwng, yn enwedig pobl anabl a rhieni sengl, yn mynd yn bell iawn tuag at sicrhau na fydd angen cyfeirio pobl at fanciau bwyd."

Yn ystod 2018, bydd Credyd Cynhwysol (CC) yn cael ei gyflwyno yn y rhan fwyaf o Gymru gan Lywodraeth y DU. Mae hyn yn symlhau'r drefn budd-daliadau, ond mae fel arfer yn cymryd pump wythnos i'r taliad cyntaf gyrraedd, a gwneir pob taliad yn fisol ar ddiwedd y mis. Mae llawer o elusennau yn adrodd bod hyn yn arwain at lithro i ddyled – yn enwedig dyledion rhent – ac fe all fod yn anodd iawn adfer y sefyllfa wedyn.

Mae ymchwil newydd gan fanciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell yng ngweddill y DU lle mae CC llawn wedi'i gyflwyno yn dangos cynnydd o 30% ar gyfartaledd chwe mis ar ôl y cyflwyno o'i gymharu â blwyddyn ynghynt. Roedd y cynnydd mewn ardaloedd heb CC llawn yn 12%.

Mae data Ymddiriedolaeth Trussell yn dangos mai anhawster gyda derbyn budd-daliadau yw'r achos pennaf dros gyfeirio at fanc bwyd yng Nghymru o hyd, sef 43% o'r holl gyfeiriadau. Mae ymchwil newydd ledled y DU yn dangos o blith y bobl a gyfeiriwyd oherwydd oedi gyda budd-daliadau, roedd 45% yn ymwneud ag aros am CC a 36% o'r oedi am daliad cyntaf yn ymwneud â CC. O'r rhai a ddaeth oherwydd newid yn eu budd-daliadau, roedd 38% o'r achosion yn ymwneud â symud i Gredyd Cynhwysol.

Mae incwm isel, sy'n cyfeirio at unrhyw un sydd mewn gwaith neu ar fudd-daliadau sy'n methu â chael dau ben llinyn ynghyd ar eu hincwm, yn cyfri am 27% o gyfeiriadau – sy'n awgrymu nad yw lefelau cyflog a budd-daliadau yn gwarchod pobl rhag suddo i argyfwng. Ar yr un pryd, mae diweithdra yn y DU yn codi, ac yng Nghymru ceir y raddfa uchaf (gweler ffeithlun gyferbyn) a mae



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Arolwg y Llafurlu

digartrefedd hefyd ar gynnydd. Meddai Sharon Lee, Cyfarwyddydd Housing Justice Cymru, sy'n aelod yn Cytûn, "Mae ystadegau cysgu allan yng Nghymru gyhoeddwyd fis Chwefror yn dangos cynnydd o 10% ar draws Cymru, gyda chynnydd yn 13 o'r 22 Awdurdod Lleol. Mae'n rhaid i ni symud o fodloni ar reoli'r argyfwng i gerdded llwybr atal ac adfer gyda phobl."

Ar draws y DU, mae clymblaid o'r enw End Hunger UK yn ceisio mynd i'r afael â'r mater ar y lefel hwnnw. Ymhlith ei aelodau mae Church Action on Poverty; Eglwys Loegr; Eglwys yr Alban; Baptists Together (y mae Cymanfa Bedyddwyr De Cymru, sy'n aelod yn Cytûn, yn rhan ohono); aelod enwadau Cytûn yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig; Quaker Peace and Social Witness (a gysylltir â Chymdeithas y Cyfeillion, sy'n aelod yn Cytûn); ac Ymddiriedolaeth Trussell. Canolbwynt cyntaf yr ymgyrch oedd mesurau atal newyn gwyliau ysgol, gan gynnwys cefnogi bil meinciau cefn yn Senedd y DU i ddarparu prydau bwyd yn ystod y gwyliau i'r plant hynny sy'n cael prydau am ddim yn ystod y tymor ysgol. Fe gyflawnwyd hyn eisoes mewn llawer rhan o Gymru gan Glybiau Bwyd a Hwyl Llywodraeth Cymru (yn swyddogol Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf neu SHEP). Dyw'r cynllun hwn ddim fel arfer yn ariannu cynlluniau trydydd sector fel y rhai ar dud. 1. Ond mae'r ymgyrch yn cyflwyno Bwydlen Diweddu Newyn gyda 9 eitem, gan gynnwys mynd i'r afael â llawer o'r materion yn yr erthygl hwn. Gall eglwysi lleol ac unigolion arwyddo i ddangos eu cefnogaeth.

DEISEB AM DYSTYSGRIF MYNEDIAD I GYMRU

Mae deiseb gyfredol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar roi i safleoedd busnes yng Nghymru Dystysgrif Mynediad tebyg i'r Dystysgrif Hylendid Bwyd gyda safleoedd yn arddangos sgôr o 0 i 5 gan ddibynnu ar ba mor hygyrch a chyfeillgar i'r anabl y maen nhw. Byddai sgôr uchel yn ymwneud nid dim ond â mynediad i gadeiriau olwyn, ond hefyd â cylchoedd clywed, bwydlenni braille, staff yn defnyddio iaith arwyddion ac wedi'u hyfforddi o ran ymwybyddiaeth anabledd, cydraddoldeb ac awtistiaeth.

Daeth y syniad gan aelodau Clymblaid Pobl Anabl Penybont-ar-Ogwr ac fe gafodd eisoes dros 2,000 o lofnodion arlein a mwy ar bapur. Mae'r Glymblaid yn credu y gallai wella gwasanaethau i bob cwsmer anabl.

Oriel Mostyn.
Llun: Croeso Cymru

Trafodwyd y syniad eisoes yn y Senedd yn dilyn dadl fer dan arweiniad Suzy Davies AC. Gellir gweld y ddeiseb yma: https://www.assembly.wales/cy/gethome/e-petitions/Pages/petitiondetail.aspx?PetitionID=1273 Y dyddiad olaf i'w arwyddo yw 31 Mawrth 2018.

RHWYDWAITH GWEDDI A CHEFNOGAETH I GYNGHORWYR LLEOL

Mae Helen Harrison, cynghorydd lleol yn Thornbury, ger Bryste, ac yn aelod yn Eglwys Bedyddwyr Thornbury, wedi ymgymryd â bod yn Gydlynydd Rhwydwaith Cynghorwyr Christians in Politics. Mae'n gobeithio cysylltu cynghorwyr, o bob plaid a dim plaid, trwy weddi, yn y lle cyntaf trwy e-lythyr bob yn ail fis. Os hoffech gymryd rhan, ebostiwch (yn Saesneg) Helen@christiansinpolitics.org.uk.

COSB RESYMOL? NEU WAHARDDIAD AFRESYMOL?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori am ddeddfwriaeth newydd i'w gwneud yn anghyfreithlon i rieni gosbi eu plant yn gorfforol. Gwahoddir aelodau'r cyhoedd a mudiadau i ymateb i'r cynigion, naill ai drwy'r holiadur arlein neu drwy ddanfon sylwadau. Ceir y dogfennau ymgynghori – gan gynnwys argraffiad hawdd ei ddeall – yma: https://beta.llyw.cymru/cynnig-deddfwriaethol-i-ddileu-amddiffyniad-cosb-resymol?_ga=2.198684908.2116813785.1519727598-207822493.1515003221 Y dyddiad cau yw Ebrill 2 2018.

Mae'r gyfraith ymosod a churo (common assault) eisoes yn ei gwneud yn drosedd i fwrw neu fygwth yn ddifrifol unigolyn arall, gan gynnwys aelodau'ch teulu. Ond ar hyn o bryd fe all rhieni – a neb arall – yn y DU hawlio'r amddiffyniad cyfreithiol 'cosb resymol' (neu 'cystwyo rhesymol') am daro eu plentyn. Mae'r gyfraith am greulondeb neu ddiffyg gofal o blentyn yn ymdrin â niwed difrifol, ac yn 2007 fe'i dyfarnwyd yn anghyfreithlon i rieni daro plentyn a gadael mwy na marc dros dro ar y croen. Byddai'r cynllun presennol i ddeddfu i dynnu'r amddiffyniad 'cosb resymol' oddi wrth rieni yn rhoi i blant dan 16 yng ngofal eu rhieni yr un warchodaeth dan y gyfraith ag sydd gan bawb arall. Gwaharddwyd cosb gorfforol ers blynyddoedd mewn ysgolion, cartrefi plant, cyfleusterau gofal plant, penydfeydd neu i gosbi troseddwyr. Mae hefyd yn anghyfreithlon mewn cartrefi maeth. Byddai tynnu'r amddiffyniad 'cosb resymol' yn berthnasol i unrhyw un arall sy'n gofalu am blant ar ran rhieni – megis neiniau a theidiau, cymdogion neu warchodwyr.

Mae'r gyfraith 'common assault' yn berthnasol i weithredu'n 'fwriadol neu'n ddi-hid', a mae'r amddiffyniad yn ymwneud â 'chosb'. Nid oes effaith ar rwystro plentyn rhag rhedeg i'r heol, clymu plentyn sy'n gwrthwynebu i sedd car, neu cario plentyn i ffwrdd o fan sy'n achosi cam-ymddwyn (megis cownter losin yr archfarchnad) – oni bai i hynny gael ei wneud mor greulon neu ddi-hid fel bod y plentyn yn cael ei frifo, sy'n anghyfreithlon eisoes.

Yn 2011, pasiwyd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), sy'n golygu bod rhaid i holl Weinidogion Cymru gymryd i ystyriaeth Confensiwn y Cenhedloedd Unedig am Hawliau'r Plentyn [UNCRC]. Mae caniatáu cosbi corfforol ar blant gan eu rhieni yn groes i Erthygl 19 yr UNCRC, a chafodd y DU ei beirniadu am fethu â chydymffurfio â hyn. Mae gwahanol systemau cyfreithiol ar draws y byd yn gwarchod ac yn creu troseddau mewn gwahanol ffyrdd, ond mae rhyw 50 o wledydd yn gwahardd pob cosb gorfforol yn y cartref, a mae'r duedd yn lledu. Bwriad Llywodraeth Cymru wrth hybu'r newid, meddent, yw newid agweddau yn hytrach na chynyddu nifer yr erlyniadau. Gan fod ymosod ar blant eisoes yn drosedd, os oes cwyn am smacio – i athro, gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr iechyd, heddlu, neu bwy bynnag – mae yna eisoes ddyletswydd i ymchwilio.

Mae yna ymgyrch 'Byddwch yn Rhesymol' sy'n gwrthwynebu'r cynigion: http://www.bereasonable.wales/cy/ Mae pennawd y wefan "Bydd cynlluniau Prif Weinidog Cymru yn troi rhieni da yn droseddwyr" yn dangos mai nid rhinweddau neu fel arall cosbi'n gorfforol yw ei brif ddadl, ond yn hytrach y perygl y bydd y Llywodraeth yn ymyrryd yn ormodol ym mywyd y teulu. Mae Cynghrair Efengylaidd Cymru, heb gymryd safiad ffurfiol, yn dweud y bydd y cynlluniau yn "give the government greater power to intervene in the life of any and every family in Wales." Bu'r ymgyrch ar dudalen flaen y *Treasury* (Eglwys Bresbyteraidd Cymru – aelod yn Cytûn) yn Hydref 2017, gydag erthygl gan Gyfarwyddwr y Christian Institute, sydd hefyd yn ymgyrchu yn erbyn y newid.

Ar y llaw arall, mae nifer o eglwysi a chadeirlannau'r Eglwys yng Nghymru wedi llwyfannu gwasanaethau ar ran clymblaid 'Sdim Curo Plant. Mae Cymdeithas y Plant yn aelod o'r glymblaid honno, ynghyd â'r Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig, sydd oll yn aelodau yn Cytûn. Oherwydd yr amrywiaeth barn yn ein plith, mae Cytûn yn annog trafodaeth ofalus am y cynllun a'i oblygiadau, heb gymryd safiad y naill ffordd na'r llall.

CHWYLDRO O'R TU MEWN

Dyma deitl dramatig adroddiad yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ym mis Ionawr. Mae'r adolygiad yn cyflwyno deg argymhelliad 'lefel uchel' – hynny yw, nid ydynt yn dweud pa ysbytai ddylai gynnig pa wasanaethau, neu sut y dylid trefnu gofal cymdeithasoli yn lleol. Yn hytrach, maent yn datgan yr egwyddorion ar gyfer gwneud penderfyniadau o'r fath. Dyma grynodeb o'r deg egwyddor:

1: Un system ddi-dor i Gymru. Dylid trefnu gofal o amgylch yr unigolyn a'r teulu, mor agos â phosibl at y cartref, a dylai fod yn ataliol, yn hygyrch ac o ansawdd uchel. Dylai gofal a chymorth fod yn ddi-dor, heb rwystrau artiffisial rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gofal sylfaenol a gofal eilaidd, na iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gan y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol ac annibynnol ran i'w chwarae wrth ddiwallu'r anghenion.

2: Y Nod Pedwarplyg i bawb: Dylai staff iechyd a gofal, gwirfoddolwyr a dinasyddion gydweithio i gyflawni (a) canlyniadau clir, (b) gwell iechyd a llesiant, (c) gweithlu sy'n derbyn gofal, a (ch) gwell gwerth am arian.

3: Modelau gofal di-dor newydd a dewr – egwyddorion cenedlaethol, darparu'n lleol: Symud at (a) gofal di-dor yn agos at y cartref mewn ardaloedd lleol; (b) gwelliant rhagweithiol yn iechyd a llesiant y boblogaeth; a (c) cyfeiriad newydd i ofal arbenigol.

4: Rhoi'r rheolaeth yn nwylo'r bobl: Cryfhau llais a rheolaeth unigolion a'r gymuned mewn iechyd a gofal. Dylai'r cyhoedd gael gwell gwybodaeth am iechyd a gofal, rhannu yn y penderfyniad am eu triniaeth, dewis o ran gofal a lleoliad, a chymorth gan gymheiriaid.

5: Lle gwych i weithio ynddo: Dylai staff dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth, a dylid ymgysylltu â nhw. Dylid cynllunio'r gweithlu'n well, a defnyddio sgiliau Cymraeg y staff.

6: System iechyd a gofal sy'n dysgu trwy'r amser: Datblygu strategaeth gwella ansawdd a dysgu parhaus ar gyfer iechyd a gofal, a'i gweithredu, gan gyfoethogi'r arweinyddiaeth a'r seilwaith sy'n ofynnol i'w chefnogi.

7: Defnyddio arloesedd, a chyflymu datblygiadau mewn technoleg a seilwaith

8: Cysoni dyluniad y system i gyflawni canlyniadau: Dylunio cyfuniad mwy effeithiol o gymhellion, rheoleiddio, cynllunio, targedau a rheoli perfformiad. Byddai'n cynnwys adolygu cytundebau Llywodraeth Cymru â meddygon teulu, fferyllwyr cymunedol, ac ati.

9: Y gallu i drawsnewid, arweinyddiaeth ddeinamig, cydweithredu digynsail, gan gynnwys y GIG a gofal cymdeithasol yn cyd-gomisiynu gwasanaethau. Ond nid argymhellir cyfuno'r ddau system yn llwyr.

10: Atebolrwydd, cynnydd a chyflymder: Cyhoeddi cynnydd yn erbyn y weledigaeth, y Nod Pedwarplyg a'r modelau newydd ymhen blwyddyn, tair blynedd a phum mlynedd, a meincnodi cynnydd yn erbyn y tair gwlad arall yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Dywed yr Adolygiad, *Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, rydym yn argymell creu Rhaglen Drawsnewid genedlaethol â chyfyngiad amser, gyda staff ac adnoddau, i weithredu'r argymhellion a'r camau gweithredu ategol a nodir yn yr adroddiad hwn. Dylid goleuo'r Rhaglen gyda phroses werthuso annibynnol i dracio cynnydd ac i awgrymu addasiadau. Mae ar Gymru angen trawsnewid faint sy'n cael ei wneud, ond mae arni angen trawsnewid beth sy'n cael ei wneud a sut y mae'n cael ei gyflawni, i fodloni anghenion gofal a chymorth pobl Cymru yn y dyfodol.* (t. 10)

Nid oes sôn am gaplaniaethau na gofal ysbrydol. Yn anffodus mae'r weledigaeth wedi'i lapio â llawer o jargon rheolaethol. Ar wahân i argymell model integredig o Canterbury, Seland Newydd, does fawr ddim enghreifftiau penodol o arfer da nag o beth a fwriedir at y dyfodol. Amser a ddengys sut y gellir troi'r argymhellion 'lefel uchel' hyn yn well gofal.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet Vaughan Gething wedi cyhoeddi cronfa £100 miliwn i weithredu'r Adolygiad a chyhoeddir cynllun hirdymor newydd yn y gwanwyn.

Y camau nesaf tu allan i'r UE:
Cyfarfod cyhoeddus i edrych ymlaen i'r dyfodol trwy wrando ar ein gilydd

Next steps outside the EU:
A public meeting to look to the future as we listen to each other

Cyfarfod agored dwyieithog dan nawdd nifer o eglwysi Llanbedr Pont Steffan mewn partneriaeth â Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru

A bilingual open meeting sponsored by local churches in Lampeter in partnership with Cytûn – Churches Together in Wales

Cadeirydd / Chair: Dylan Iorwerth

Ysgol Bro Pedr, Peterwell Terrace,
Llanbedr Pont Steffan/Lampeter SA48 7BX

Nos Fawrth 13 Mawrth 2018, 7-9yh
Tuesday 13 March 2018, 7-9pm

Croeso i bawb – All welcome

YM MHA FATH O BRYDAIN YDYM NI AM FYW?
Cyfarfod cyhoeddus i edrych ymlaen i'r dyfodol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd trwy wrando ar ein gilydd

WHAT SORT OF BRITAIN DO WE WANT TO LIVE IN?
A public meeting to look to the future outside the European Union as we listen to each other

Cyfarfod agored dan nawdd grwpiau Cytûn (Eglwysi Ynghyd) Llandudno a Bae Colwyn

An open meeting sponsored by Cytûn (Churches Together) Llandudno and Colwyn Bay

Eglwys Fethodistaidd St Ioan
St. John's Methodist Church
Mostyn St, Llandudno LL30 2NN

Nos Fawrth 24 Ebrill 2018, 7-9yh
Tuesday 24 April 2018, 7-9pm

Croeso i bawb – All welcome

Mae Gweithgor Cymru ac Ewrop Cytûn yn cynnal cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus yn gwahodd pobl i ddod a gwrando ar ei gilydd mewn awyrgylch cyfaddas. Ni fydd areithiau gan wleidyddion nac 'arbenigwyr', ond yn hytrach bydd cyfle i bobl ag amrywiaeth o obeithion, ofnau, pryderon a gweledigaethau i'w rhannu â'i gilydd. Trefnir pob cyfarfod mewn partneriaeth ag eglwysi lleol a byddant yn agored i bawb. Hysbysevir y ddau gyfarfod cyntaf uchod, gydag eraill i ddilyn yn nes ymlaen eleni. Byddem o hyd yn hoffi clywed gan gylchoedd eraill fyddai â diddordeb cynnal achlysur o'r fath.

Mae'r Gweithgor hefyd yn parhau â'i waith o ymateb i ymgynghoriadau Llywodraethau a Seneddau Cymru a'r DU am Brexit, a dilyn y datblygiadau deddfwriaethol. Gallwch weld cyhoeddiadau'r Gweithgor yn: http://www.cytun.cymru/cymruewrop/index.html

CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN

Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer
Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales
58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT
Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062
E-bost/E-mail: gethin@cytun.cymru **@CytunNew**

Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |
Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071 |
Dyddiad cyhoeddi: 28 Chwefror 2018. Cyhoeddir y Bwletin nesaf tua diwedd Ebrill 2018.